Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Gymunedol Gilwern

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg







Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Gilwern. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cyfathrebu a medrau personol a chymdeithasol cryf. Maent yn ymgyfarwyddo â bywyd ysgol yn gyflym ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'i gilydd ac oedolion. Maent yn hapus ac yn hyderus wrth ddysgu dan do ond yn enwedig yn ardaloedd awyr agored deniadol yr ysgol. At ei gilydd, maent yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ystod eang o fedrau o'u mannau cychwyn unigol. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â llawer o'r profiadau y mae'r ysgol yn eu darparu. Yn benodol, maent yn mwynhau gweithgareddau fel cerddoriaeth ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu creadigrwydd. Hefyd, maent yn parhau i adeiladu'n dda ar eu medrau rhifedd ac yn dysgu sut i gymhwyso'r rhain mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud fel darllenwyr ac ysgrifenwyr, ac wrth iddynt fynd yn hŷn, mae agweddau at ddysgu lleiafrif o ddisgyblion hŷn, yn enwedig bechgyn, yn mynd yn llai cadarnhaol mewn gwersi yn y dosbarth.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n gweddu i ysbryd a dyheadau'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Gwelir enghreifftiau o hyn ym mhrosiect creadigol 'Gilwern Around the World'. Mae trefniadau i ddatblygu agweddau ar fedrau creadigol disgyblion yn gryf, ar y cyfan, ac yn aml yn cael eu hymestyn gan wersi arbenigol. Mae addysgu a phrofiadau dysgu ar gyfer disgyblion o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 2 yn effeithiol, ar y cyfan. Fodd bynnag, maent yn llai llwyddiannus o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 lle nad ydynt bob amser yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cystal ag y gallent mewn agweddau pwysig ar eu dysgu neu mewn datblygu ymddygiadau dysgu effeithiol. Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan yr ysgol yn gryf. Mae'n sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael amgylchedd gofalgar ac anogol, ac yn datblygu synnwyr o gyfrifoldeb fel dinasyddion Cymru a'r byd. Mae cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer addysg a lles yr holl ddysgwyr. Ymgorfforir hyn yng nghynnig cwricwlwm yr ysgol. Maent wedi creu ethos tîm cryf fel bod pob aelod o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn hyderus i gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol. Y tu hwnt i'r ysgol, mae arweinwyr a staff yn gweithio gyda'r clwstwr ysgolion lleol i ymgymryd â dysgu proffesiynol buddiol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn gweithredu gwelliannau cynlluniedig yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw eu prosesau i werthuso safon yr addysgu yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi nodi gwendidau pwysig yn yr addysgu a ddarperir ar gyfer disgyblion hŷn. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu rolau yn bwrpasol. Maent yn cynorthwyo disgyblion i gael llais mewn materion lleol y tu hwnt i gatiau'r ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

# Argymhellion

A1 Gwella addysgu, yn enwedig ar gyfer disgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6

A2 Gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion, yn enwedig o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6

A3 Gwella prosesau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd addysgu

A4 Mynd i'r afael â'r mater diogelwch ar y safle a nodwyd yn ystod yr arolygiad

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymunedol Gilwern |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Fynwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 213 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 189 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 5.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 12.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 03/01/2000 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/10/2022 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/12/2022